

Cofrestru dienw: Helpu'r rhai sydd wedi goroesi cam-drin domestig i gofrestru i bleidleisio

Diweddariad mis Chwefror 2018

Lluniwyd ar y cyd gan y Comisiwn Etholiadol a Cymorth i Ferched Cymru

Mae'r daflen hon yn adlewyrchu'r system cofrestru dienw yng Nghymru, gan gynnwys y newidiadau a gyflwynwyd gan Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) (Diwygiad) 2018. I gael gwybodaeth am gofrestru dienw yn Lloegr, Gogledd Iwerddon neu'r Alban, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol ar 0333 103 1928

Cyflwyniad

Er mwyn pleidleisio yn etholiadau'r DU, bydd angen i'ch cleientiaid sicrhau eu bod wedi **cofrestru i bleidleisio** drwy roi rhai manylion personol i'w Swyddog Cofrestru Etholiadol lleol. Efallai na fydd rhai menywod sydd wedi profi cam-drin domestig yn gallu achub ar y cyfle i bleidleisio am eu bod yn poeni y bydd tramgwyddwyr yn gallu dod o hyd iddynt drwy chwilio'r gofrestr etholiadol am eu cyfeiriad newydd.

Mae'r canllaw byr hwn wedi'i anelu at weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda'r rhai sydd wedi goroesi cam-drin domestig ac yn dweud wrthyhych sut y gallwch helpu eich cleientiaid i **gofrestru i bleidleisio'n ddienw** fel y gallant bleidleisio *heb* i'w henw na'u cyfeiriad ymddangos ar y gofrestr etholiadol a bod yn siŵr y caiff eu manylion personol eu cadw'n gyfrinachol.

Cynnwys

1. Cofrestru dienw – beth ydyw a sut mae'n gweithio
2. Gwneud cais
3. Cadw gwybodaeth eich cleient yn ddiogel
4. Pleidleisio
5. Cwestiynau cyffredin
7. Gorchmynion llys a all gael eu defnyddio fel tystiolaeth i ategu cais i gofrestru'n ddienw
6. Dolenni defnyddiol

1. Cofrestru dienw – beth ydyw a sut mae'n gweithio

Beth yw cofrestru dienw?

Cafodd y broses cofrestru dienw ei chyflwyno er mwyn helpu unigolion a fyddai mewn perygl (neu lle byddai pobl eraill yn yr un cyfeiriad mewn perygl) petai eu henw neu eu cyfeiriad yn cael eu cynnwys ar y gofrestr etholiadol – er enghraifft rhywun sydd wedi dianc rhag cam-drin domestig.

Sut mae cofrestru dienw yn gweithio

Mae'n rhaid i bob pleidleisiwr roi gwybodaeth bersonol sylfaenol i'w Swyddog Cofrestru Etholiadol lleol fel y gall y Swyddog sicrhau ei fod yn gymwys i gofrestru i bleidleisio. Y gwahaniaeth rhwng cofrestriad cyffredin a chofrestriad dienw yw'r ffordd y mae'r manylion hyn yn ymddangos ar y gofrestr etholiadol a sut mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn cyfathrebu â chi.

Enghreifftiau o gofnodion ar y gofrestr etholiadol

Dyma'r ffordd mae cofnodion fel arfer yn ymddangos ar y gofrestr etholiadol:

BC412	Vella, John	59 Green Lane
BC413	Vella, Veronica	59 Green Lane

Dyma'r ffordd mae **cofnodion dienw** yn ymddangos ar y gofrestr etholiadol:

BC602	N
-------	---

Mae'r 'N' yn dynodi bod y cofnod hwn yn perthyn i bleidleisiwr sydd wedi cofrestru'n ddiennw. Os yw'ch cleient wedi cofrestru'n ddiennw, ni fydd ei enw na'i gyfeiriad yn ymddangos ar y gofrestr etholiadol. Mae cofrestru dienw yn ffordd ddiogel i'ch cleientiaid gofrestru i bleidleisio. Rhoddir gwybodaeth yn adran 3 am y ffordd y bydd manylion eich cleient yn cael eu cadw'n ddiogel gan awdurdod lleol a phwy fydd yn gallu cael gafael arnynt.

2. Gwneud cais

Sut mae gwneud cais i gofrestru'n ddiennw?

I gofrestru'n ddiennw, bydd angen i'ch cleientiaid gwblhau [ffurflen gais cofrestru diennw](#). Bydd angen iddynt egluro'n fras pam y byddent mewn perygl (neu pam y byddai rhywun arall ar yr un aelwyd mewn perygl) petai eu henw a'u cyfeiriad yn ymddangos ar y gofrestr etholiadol (er enghraifft, maent yn poeni y gallai unrhyw achos o ddatgelu eu cyfeiriad gynyddu'r risg iddynt). Bydd hefyd angen iddynt ddarparu **tystiolaeth ddogfennol** i ategu eu cais, sy'n cynnwys naill ai:

1. gorchymyn llys; neu
2. ardystiad

Yna, rhaid i'r cais gael ei gyflwyno i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn y cyngor lleol.

Mae'n bwysig eich bod yn cysylltu â'ch tîm gwasanaethau etholiadol lleol cyn gynted â phosibl er mwyn creu cyswllt â'ch Swyddog Cofrestru Etholiadol. Mae ei fanylion ar gael yn www.dybleidlaisdi.co.uk/. Bydd yn hapus i roi ffurflenni cais i chi eu dosbarthu i'ch cleientiaid yn ogystal ag ateb unrhyw gwestiynau a all fod gennych. Mae hyn yn hynod bwysig cyn etholiad oherwydd bydd yn gallu eich hysbysu am y dyddiadau cau perthnasol i gofrestru ac unrhyw drefniadau sydd ar waith yn lleol. Dylai hyn wedyn helpu i osgoi unrhyw oedi diangen wrth brosesu ceisiadau.

Pa dystiolaeth ategol sydd angen ei rhoi gyda chais i gofrestru'n ddiennw?

Mae'n rhaid i bob cais gynnwys dystiolaeth y byddai'r ymgeisydd neu rywun arall ar yr un aelwyd mewn perygl petai enw a chyfeiriad yr unigolyn yn ymddangos ar y gofrestr. Gellir derbyn unrhyw un o'r canlynol fel dystiolaeth:

- 1) Dogfen llys gyfredol gan gynnwys gwaharddeb, gorchymyn atal, gorchymyn rhag aflonyddu, gorchymyn amddiffyn rhag cam-drin domestig, gorchymyn amddiffyn rhag anffurfio organau cenhedlu benywod, ac ataleb. Rhoddir manylion llawn y dogfennau llys perthnasol ar y **ffurflen cofrestru diennw** ac yn adran 6 o'r daflen hon. Rhestrir y gorchymynion llys a dderbynnir ar gyfer cofrestradau diennw yn y gyfraith, ac felly ni ellir derbyn mathau eraill o orchymynion llys fel dystiolaeth.
- 2) **Ardystiad** gan **swyddog cymwys** sy'n ategu'r cais

Mae **ardystiad** yn datgan y byddai'r ymgeisydd neu rywun arall ar yr aelwyd mewn perygl petai enw a chyfeiriad yr unigolyn yn ymddangos ar y gofrestr. Rhaid i ardystiadau fod yn ysgrifenedig a chael eu llofnodi a'u dyddio gan y swyddog cymwys sy'n gorfod nodi am ba hyd y byddant yn weithredol (rhwng blwyddyn a phum mlynedd).

Gall unrhyw un o'r canlynol (yn unrhyw ran o'r DU) fod yn **swyddog cymwys**:

- rheolwr lloches
- ymarferydd meddygol cofrestredig e.e. meddyg teulu
- nyrs neu fydwraig gofrestredig
- swyddog heddlu ar reng arolygydd neu reng uwch mewn unrhyw heddlu yn y DU
- Cyfarwyddwr Cyffredinol y Gwasanaethau Diogelwch neu'r Asiantaeth Troseddau Genedlaethol
- Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion neu Wasanaethau Plant yn Lloegr,
- Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru,
- Prif Weithiwr Cymdeithasol yn yr Alban (a all awdurdodi'n ysgrifenedig rywun arall i ardystio cais os yw'r unigolyn dan 16 oed)
- Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Bwrdd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol neu Gyfarwyddwr Gweithredol Gwaith Cymdeithasol Ymddiriedolaeth Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yng Ngogledd Iwerddon

Os bydd gan ymgeiswyr unrhyw gwestiynau am ddarparu gorchymyn llys neu ardystiad, dylent gysylltu â'r Swyddog Cofrestru Etholiadol am gyngor.

Gwneud ardystiad

Fel rheolwr lloches, gallwch ddarparu ardystiadau ar ran eich cleientiaid.

Yn ôl cyfraith etholiadol, ystyr "lloches" yw llety ynghyd â rhaglen gynlluniedig o gymorth therapiwtig ac ymarferol i'r sawl sydd wedi dioddef, neu sydd mewn perygl o ddioddef camdriniaeth neu drais domestig.

Drwy ddarparu ardystiad, rydych yn ardystio y byddai'r ymgeisydd, neu rywun arall ar yr aelwyd, mewn perygl petai enw a chyfeiriad yr unigolyn yn ymddangos ar y gofrestr.

Sut mae gwneud ardystiad ar ran eich cleient?

I wneud ardystiad ar ran eich cleient gallwch gwblhau'r ardystiad templed a geir ar y [ffurflen gais cofrestru dienw](#).

Fel arall, gallwch ei ddarparu ar unrhyw ffurf arall, cyhyd ag y bo'n ysgrifenedig, wedi'i lofnodi a'i ddyddio gennych chi fel y swyddog cymwys, a'i fod yn nodi am ba hyd y bydd yn weithredol (rhwng blwyddyn a phum mlynedd).

Ar gyfer pwy y gallwch ddarparu ardystiad?

Nid yw'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol bod cydberthynas uniongyrchol rhwng y sawl sy'n ardystio a'r ymgeisydd. Mae hyn yn golygu y gallwch wneud ardystiad ar ran unigolion nad ydynt yn defnyddio gwasanaethau yn eich sefydliad, ar yr amod y gallwch **ddweud yn gwbl gywir y byddai'r ymgeisydd, neu rywun arall ar yr un aelwyd, mewn perygl petai enw a chyfeiriad yr unigolyn yn ymddangos ar y gofrestr**.

A oes rhaid i chi ddarparu ardystiad?

Nid oes rhaid i chi ddarparu ardystiad. Os nad ydych mewn sefyllfa i ardystio y byddai'r ymgeisydd, neu rywun arall ar yr un aelwyd, mewn perygl petai enw a chyfeiriad yr unigolyn yn ymddangos ar y gofrestr yna gall yr ymgeisydd gysylltu â swyddogion cymwys eraill a all wneud hynny efallai.

Mae rhoi gwybodaeth anwir yn fwriadol i Swyddog Cofrestru Etholiadol at unrhyw ddiben sy'n gysylltiedig â chofrestru etholwyr yn drosedd o dan Adran 13D o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983. Petaech yn cael eich euogfarnu yng Nghymru neu Loegr gallech wynebu hyd at 51 wythnos o garchar a/neu ddirwy amhenodol.

Pryd y daw'r cofrestriad i rym ar ôl gwneud cais i gofrestru'n ddienw?

Pan fydd y cais wedi'i brosesu, a chan dybio bod y cais yn llwyddiannus, caiff unigolion eu hychwanegu'n ddiennw at y gofrestr pan gyhoeddir y fersiwn ddiweddaraf nesaf ohoni.

Os bydd unrhyw broblemau neu gwestiynau am y cais bydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn cysylltu â'r ymgeisydd yn uniongyrchol.

Am ba hyd y bydd y cofrestriad dienw yn parhau'n ddilys?

Bydd y cofrestriad yn para am 12 mis o'r diwrnod y gwneir y cofnod dienw ar y gofrestr gyntaf. Ar ôl 12 mis, bydd angen i'ch cleient ailgofrestru'n ddiennw. Bydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn cysylltu â'r unigolyn mewn da bryd er mwyn rhoi gwybod pa wybodaeth sydd ei hangen er mwyn i'r cofrestriad barhau am 12 mis arall. Ar yr amod ei bod/fod yn ddilys, gellir defnyddio'r un dystiolaeth neu ardystiad i adnewyddu cofrestriad dienw eich cleient.

A gaiff ymgeiswyr gadarnhad pan fyddant wedi'u hychwanegu at y gofrestr fel etholwyr dienw?

Pan fydd ymgeisydd wedi'i ychwanegu at y gofrestr, bydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn anfon 'tystysgrif cofrestru dienw' wedi'i llofnodi at yr unigolyn hwnnw i gadarnhau'r cofrestriad a gellir ei defnyddio fel prawf cofrestru os oes angen (er enghraifft, gan asiantaeth gwirio credyd).

3. Cadw gwybodaeth bersonol eich cleient yn ddiogel

Gweld cofnod cofrestru dienw eich cleient

Mae Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn ymwybodol iawn o natur sensitif gwybodaeth unigolion pan gânt geisiadau cofrestru dienw a chaiff y wybodaeth ei thrin yn briodol. Bydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol a'i dîm yn darparu cymorth a chynghor cyfrinachol i unigolion sydd am gofrestru'n ddiennw.

Mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol a'i dîm yn rhwym wrth ddeddfwriaeth diogelu data, a hefyd ddeddfwriaeth etholiadol, sy'n nodi mai dim ond at ddibenion etholiadol penodol a nodir yn y rheoliadau y caiff data etholiadol (gan gynnwys manylion personol) eu defnyddio. Ni wnaiff y Swyddog Cofrestru Etholiadol roi manylion eich cleient i unrhyw un oni fydd yn ofynnol iddo wneud hynny yn ôl y gyfraith.

Mae trefniadau ymarferol yn amrywio rhwng awdurdodau lleol ond mae rhai Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn mynnu bod pob aelod o staff sy'n delio â data etholiadol yn cael gwiriad DBS. Ym mhob achos, bydd cyfyngiadau llym ar bwy sy'n cael gweld ffurflenni cofrestru dienw, gyda llawer o awdurdodau ond yn cadw copïau caled o geisiadau mewn cabinet dan glo ac ond yn caniatáu i nifer fach o uwch aelodau o'r tîm gael gweld y cofnodion hyn. Dylech gysylltu â'ch Swyddog Cofrestru Etholiadol lleol am ragor o wybodaeth am sut y caiff gwybodaeth sensitif ei rheoli yn lleol ac mae ei fanylion cyswllt ar gael yn www.dybleidlaisdi.co.uk

4. Pleidleisio

Sut mae etholwr sydd wedi cofrestru'n ddiennw yn bwrw pleidlais mewn etholiad?

Caiff etholwr sydd wedi cofrestru'n ddiennw yr un opsiynau o ran pleidleisio mewn etholiad ag etholwyr eraill. Gall bleidleisio yn bersonol mewn gorsaf bleidleisio neu wneud cais i bleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy.

Os dewisir pleidleisio'n bersonol bydd yn cael cerdyn pleidleisio cyn yr etholiad. Anfonir y cerdyn pleidleisio mewn prif amlen. Mae'n **rhaid** i etholwr sydd wedi cofrestru'n ddiennw fynd â'r cerdyn pleidleisio hwn i'r orsaf bleidleisio ac ni fydd yn gallu pleidleisio hebdo.

Os bydd yr etholwr am bleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy, dylai ddweud wrth y Swyddog Cofrestru Etholiadol a fydd yn rhoi ffurflen gais iddo neu gall lawrlwytho'r ffurflenni yn www.dybleidlaisdi.co.uk.

5. Cwestiynau cyffredin

Mae fy nghleient yn byw mewn lloches ac ni ellir cyhoeddi'r cyfeiriad. A oes dal angen i gyfeiriad y lloches gael ei roi ar y cais?

Wrth wneud cais i gofrestru'n ddiennw, mae'n rhaid i ymgeiswyr roi'r cyfeiriad y maent yn byw ynddo. Y rheswm dros hyn yw fel y gall y Swyddog Cofrestru Etholiadol fod yn siŵr bod gan eich cleient, drwy rinwedd y cyfeiriad preswyl, yr hawl i bleidleisio mewn adran etholiadol benodol, ac felly ni ellir rhoi cyfeiriad Blwch Post yn lle cyfeiriad post. Caiff y cyfeiriad ei gadw'n gyfrinachol gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol ac ni chaiff ei gyhoeddi na'i ddatgelu.

Ar y ffurflen gais gall y sawl sy'n gwneud cais i gofrestru ofyn am i unrhyw ohebiaeth oddi wrth y Swyddog Cofrestru Etholiadol – er enghraifft, cardiau pleidleisio – gael ei hanfon i gyfeiriad sy'n wahanol i'r cyfeiriad y mae'n byw ynddo.

Os bydd rhywun wedi cofrestru'n ddiennw, a yw'n golygu y caiff broblemau'n sicrhau credyd?

Mae'r gofrestr etholiadol yn cael ei defnyddio gan asiantaethau gwirio credyd fel rhan bwysig o'r broses o brofi pwy yw rhywun a phenderfynu a ddylid rhoi cyfleusterau

credyd i unigolion. Gan na fydd enw na chyfeiriad etholwr sydd wedi cofrestru'n ddienw yn ymddangos ar y gofrestr gall effeithio ar ei allu i agor cyfrif banc neu wneud trefniadau ariannol eraill.

Efallai y bydd yn ddefnyddiol i'r etholwr gysylltu â'r asiantaethau gwirio credyd er mwyn ychwanegu ei enw at eu cronfa ddata arbennig o etholwyr dienw. Gall ddangos copi o'i 'dystysgrif cofrestru dienw' i'r asiantaeth gwirio credyd (gweler gwybodaeth am y dystysgrif yn gynharach ar y daflen hon).

Gan fod hyn yn golygu rhoi ei fanylion i drydydd parti dylai ond gwneud hyn os yw'n hyderus ynghylch y broses sydd gan y cwmni i gadw ei ddata'n ddiogel.

Gwn ei bod yn ofynnol i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol gyhoeddi dwy fersiwn o'r gofrestr – y gofrestr etholiadol a'r gofrestr agored. A allwch gadarnhau a fydd cofnod cofrestru dienw yn ymddangos ar y gofrestr etholiadol a'r gofrestr agored?

Mae dau fath o gofrestr. Pam?

Gan ddefnyddio gwybodaeth gan y cyhoedd, mae swyddogion cofrestru yn cadw dwy gofrestr: y gofrestr etholiadol a'r gofrestr agored (a elwir yn gofrestr wedi'i golygu hefyd).

Y gofrestr etholiadol

Mae'r gofrestr etholiadol yn rhestru enwau a chyfeiriadau pawb sydd wedi cofrestru i bleidleisio mewn etholiadau cyhoeddus. Defnyddir y gofrestr at ddibenion etholiadol, fel sicrhau mai dim ond pobl gymwys a all bleidleisio. Caiff ei defnyddio hefyd at ddibenion cyfyngedig eraill a nodir yn y gyfraith, megis:

- canfod trosedd (e.e. twyll)
- galw pobl i wasanaeth rheithgor
- gwirio ceisiadau am gredyd.

Y gofrestr agored

Mae'r gofrestr agored yn rhan o'r gofrestr etholiadol, ond nis defnyddir ar gyfer etholiadau. Gall unrhyw unigolyn, cwmni neu sefydliad ei phrynu. Er enghraifft, fe'i defnyddir gan fusnesau ac elusennau er mwyn cadarnhau enwau a chyfeiriadau. Caiff eich enw a'ch cyfeiriad eu cynnwys ar y gofrestr agored oni fyddwch yn gofyn iddynt gael eu dileu. Ni fydd dileu eich manylion o'r gofrestr agored yn effeithio ar eich hawl i bleidleisio.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am y ddwy gofrestr a sut y gellir eu defnyddio yn www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio

Mae'r gofrestr etholiadol yn rhestru pawb sydd wedi cofrestru i bleidleisio mewn etholiadau cyhoeddus. Dim ond rhif etholwr etholwr dienw a gaiff ei gynnwys yn y gofrestr etholiadol, NID ei enw na'i gyfeiriad.

Ni fydd unrhyw wybodaeth am etholwr sydd wedi cofrestru'n ddiennw yn ymddangos ar y gofrestr agored.

A gaiff unrhyw unigolyn arall ardystio cais i gofrestru'n ddiennw ar wahân i'r 'swyddogion cymwys' hynny a restrwyd yn gynharach ar y daflen hon?

Dim ond unigolion sydd wedi'u henwi'n 'swyddogion cymwys' yn y rhestr uchod a gaiff ardystio ceisiadau i gofrestru'n ddiennw.

Rhestrir 'swyddogion cymwys' ar gyfer ceisiadau cofrestru dienw yn y gyfraith sy'n golygu na all y Swyddog Cofrestru Etholiadol fod yn hyblyg o ran pwy a gaiff ardystio cais.

Ni ellir dirprwyo ardystiad o swyddog cymwys i unigolyn ar lefel is o fewn y sefydliad.

Mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol wedi hysbysu unigolyn sy'n gwneud cais i gofrestru'n ddiennw na ellir derbyn gorchymyn llys penodol a gyflwynwyd fel tystiolaeth. Pam?

Rhestrir y mathau o orchmynion llys neu waharddebau a all ategu cais i gofrestru'n ddiennw yn y gyfraith. Mae hyn yn golygu na all Swyddog Cofrestru Etholiadol dderbyn gorchmynion llys na gwaharddebau nas nodir yn y gyfraith.

6. Gorchmynion llys a all gael eu defnyddio fel tystiolaeth i ategu cais i gofrestru'n ddienw

- gwaharddeb i atal unigolyn rhag ymddwyn mewn ffordd sy'n gyfystyr ag aflonyddu a roddir o dan Adran 3 o Ddeddf Diogelu rhag Aflonyddu 1997, neu o dan erthygl 5 o Orchymyn Diogelu rhag Aflonyddu (Gogledd Iwerddon) 1997
- gwaharddeb a roddir o dan Adran 3A(2) o Ddeddf Diogelu rhag Aflonyddu 1997
- gorchymyn atal a wneir o dan Adran 5(1) o Ddeddf Diogelu rhag Aflonyddu 1997, neu o dan erthygl 7 o Orchymyn Diogelu rhag Aflonyddu (Gogledd Iwerddon) 1997
- gorchymyn atal a wneir yn dilyn rhyddfarn o dan Adran 5A(1) o Ddeddf Diogelu rhag Aflonyddu 1997, neu o dan erthygl 7(A)1 o Orchymyn Diogelu rhag Aflonyddu (Gogledd Iwerddon) 1997
- gorchymyn rhag aflonyddu, ataleb neu ataleb interim a wneir o dan Adran 8 neu 8A o Ddeddf Diogelu rhag Aflonyddu 1997
- gorchymyn rhag aflonyddu a wneir o dan Adran 234A(2) o Ddeddf Gweithdrefn Troseddol (yr Alban) 1995
- gorchymyn peidio ag ymyrryd a wneir o dan Adran 42(2) o Ddeddf Cyfraith Teulu 1996, neu o dan erthygl 20(2) o Orchymyn Cartrefi Teuluol a Thrais Domestig (Gogledd Iwerddon) 1998
- ataleb briodasol o fewn ystyr Adran 14 o Ddeddf Cartrefi Priodasol (Amddiffyn y Teulu) (yr Alban) 1981
- ataleb ddomestig o fewn ystyr Adran 18A o Ddeddf Cartrefi Priodasol (Amddiffyn y Teulu) (yr Alban) 1981
- ataleb berthnasol o fewn ystyr Adran 113 o Ddeddf Partneriaeth Sifil 2004
- ataleb y pennwyd ei bod yn ataleb cam-drin domestig o fewn ystyr Adran 3 o Ddeddf Cam-drin Domestig (yr Alban) 2011
- unrhyw ataleb sy'n cynnwys y pŵer i arestio a wneir o dan Adran 1 o Ddeddf Amddiffyn rhag Camdriniaeth (yr Alban) 2001
- gorchymyn amddiffyn rhag priodas dan orfod neu orchymyn amddiffyn interim rhag priodas dan orfod a wneir o dan Ran 4A o Ddeddf Cyfraith Teulu 1996, neu o dan Adran 2, a pharagraff 1 o Atodlen 1 i Ddeddf Priodas dan Orfod (Amddiffyn Sifil) 2007, neu o dan Adran 1 neu Adran 5 o Ddeddf Priodas dan Orfod ac ati (Amddiffyn ac Awdurdodaeth) (yr Alban) 2011
- gorchymyn amddiffyn rhag trais domestig a wneir o dan adran 28 o Ddeddf Trosedd a Diogelwch 2010 neu adran 97, a pharagraff 5 o Atodlen 7 i Ddeddf Cyfiawnder (Gogledd Iwerddon) 2015
- gorchymyn amddiffyn rhag anffurfio organau cenhedlu benywod a wneir o dan adran 5A, a pharagraffau 1 neu 18 o Atodlen 2 i Ddeddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003.

Dolenni defnyddiol

[Llinell Gymorth Byw Heb Ofn](#) (Caiff ei rhedeg gan Cymorth i Ferched Cymru, ac fe'i hariennir gan Lywodraeth Cymru) 0808 80 10 800

[Cyfeiriadur gwasanaethau lleol](#) Cymorth i Ferched Cymru

[Llinell Gymorth](#) Genedlaethol ar gyfer Stelcio 0808 802 0300

[Rape Crisis Cymru](#)

[Ffurflen gais cofrestru dienw Cymru a Lloegr](#)

Cyfleuster chwilio am fanylion cyswllt Swyddogion Cofrestru Etholiadol
www.dybleidlaisdi.co.uk